



The Planning Inspectorate  
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Adran 55

## Rhestr Wirio Derbyn Ceisiadau

**Atodiad 3** Nodyn Cyngor Chwech: Paratoi a chyflwyno dogfennau cais

## Rhestr Wirio Derbyn Ceisiadau Adran 55

Gellir gweld Adran 55 Deddf Cynllunio 2008 yn [legislation.gov.uk](http://www.legislation.gov.uk), yma: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/29/section/55>

**YMWARTHODIAD:** Mae'r Rhestr Wirio hon er gwybodaeth yn unig ac nid yw'n ddogfen gais ffurfiol. Rhestr wirio anstatudol ydyw i'w chwblhau gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Os bydd yr Ymgeisydd yn ei chwblhau neu'n ei defnyddio ar gyfer hunanasesu, ni fydd hynny o bwys yn ystod y cam Derbyn. Oni nodir yn benodol, **mae pob cyfeiriad at yr Arolygiaeth Gynllunio yn ymwneud â swyddogaethau a gynhelir ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.**

Adran 55(2) Derbyn Ceisiadau				
1	O fewn 28 niwrnod (yn dechrau'r diwrnod ar ôl iddo gael y cais), rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio benderfynu p'un ai derbyn y cais i'w Archwilio ai peidio.	Dyddiad derbyn	Dyddiad disgwyl 28 niwrnod	Dyddiad y penderfyniad
		<b>22 Chwefror 2024</b>	<b>22 Mawrth 2024</b>	<b>21 Mawrth 2024</b>
Adran 55(3) – caiff yr Arolygiaeth Gynllunio dderbyn cais dim ond os yw'n dod i'r casgliad:		Sylwadau'r Arolygiaeth Gynllunio		
Adran 55(3)(a) ac adran 55(3)(c): Ei fod yn gais am orchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu				
2	A yw'r datblygiad yn brosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol <sup>1</sup> (NSIP) (neu a yw'n ffurfio rhan o NSIP); ac a yw'r cais yn datgan, ar yr olwg gyntaf, ei fod yn gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu <sup>2</sup> (DCO) o dan Ddeddf Cynllunio 2008, neu eiriau cyfatebol? A yw'r cais yn nodi'r datblygiad y mae'n ymwneud ag ef (h.y. o fewn pa	<p><b>Ydyw</b></p> <p>Mae'r Datblygiad Arfaethedig a amlinellir yn <b>Atodlen 1</b> y <b>DCO Drafft (Dogfen C1)</b> yn cynnwys datblygiad sy'n dod o fewn y categorïau yn a14 Deddf Cynllunio 2008. Mae'r datblygiad ar gyfer adeiladu gorsaf gynhyrchu ac mae'n bodloni a15 Deddf Cynllunio 2008; gan gynnwys is-adran 3B.</p> <p>Mae hyn yn gyson â'r crynodeb a ddarperir yn <b>adran 4</b> y <b>Ffurflen Gais (Dogfen A3)</b> sy'n datgan bod y cais ar gyfer NSIP.</p>		

<sup>1</sup> Diffinnir NSIP yn gyffredinol yn adran 14 ac amlinellir y trothwyon manwl ar gyfer pob un o'r categorïau penodedig yn adrannau 15 i 30

<sup>2</sup> Bydd angen caniatâd datblygu ar ddatblygiad os yw'n NSIP neu'n ffurfio rhan o NSIP (adran 31 Deddf Cynllunio 2008)

	<p>gategori neu gategoriau yn adrannau 14-30 y mae'r Datblygiad Unfeathering yn dod)?</p> <p>Os nad yw'r datblygiad yn dod o fewn y categorïau yn adrannau 14 i 30, a yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi cyfarwyddyd o dan adran 35 Deddf Cynllunio 2008 i'r datblygiad gael ei drin fel datblygiad y mae angen caniatâd datblygu ar ei gyfer?</p>	
3	<b>Crynodeb: Adran 55(3)(a) ac Adran 55(3)(c)</b>	Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn fodlon bod y <b>DCO Drafft (Dogfen C1)</b> yn cynnwys datblygiad y mae angen caniatâd datblygu ar ei gyfer.
<b>Adran 55(3)(e): Bod yr ymgeisydd, o ran y cais a gyflwynwyd, wedi cydymffurfio â Phennod 2 Rhan 5 (y weithdrefn cyn-ymgeisio)</b>		
4	Yn unol â'r Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (AEA) <sup>3</sup> , a wnaeth yr Ymgeisydd (cyn cynnal ymgynghoriad yn unol ag adran 42) ofyn i'r Arolygiaeth Gynllunio roi Barn Sgrinio mewn perthynas â'r datblygiad y mae'r cais yn ymwneud ag ef, neu (b) hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio yn ysgrifenedig ei fod yn bwriadu darparu Datganiad Amgylcheddol mewn perthynas â'r datblygiad hwnnw?	<p><b>Do</b></p> <p>Ar 7 Ebrill 2022, rhoddodd yr Ymgeisydd wybod i'r Arolygiaeth Gynllunio, yn unol â Rheoliad 8(1)(b) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017, am ei fwriad i ddarparu Datganiad Amgylcheddol (ES) yn gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig. Derbyniwyd yr hysbysiad cyn dechrau'r ymgynghoriad statudol ar 19 Ebrill 2023.</p> <p>Darperir copi o'r llythyr hysbysu yn <b>Atodiad D.23</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1)</b>.</p>
5	A dderbyniwyd unrhyw Gynrychiolaethau Digonolrwydd Ymgynghori <sup>4</sup> gan awdurdodau 'A', 'B', 'C' a 'D'; os felly, a ydynt yn cadarnhau bod yr Ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau o dan adran 42, adran 47 ac adran 48?	<p><b>Do</b></p> <p>Ar 26 Chwefror 2024, gwahoddodd yr Arolygiaeth Gynllunio bymtheg awdurdod lleol i wneud Ymateb Digonolrwydd Ymgynghori (AoCR) yn gysylltiedig â'r cais. Derbyniwyd pum ymateb erbyn y dyddiad cau.</p>

<sup>3</sup> Rheoliad 8 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2017 (Rheoliadau AEA 2017), neu, lle mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol, Rheoliad 6 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009 (Rheoliadau AEA 2009)

<sup>4</sup> Mae adran 55(4) Deddf Cynllunio 2008 yn darparu bod rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio ystyried yr Adroddiad Ymgynghori, ac unrhyw Gynrychiolaethau Digonolrwydd Ymgynghori a dderbyniwyd

		<p>Ymatebodd bedwar awdurdod gan gadarnhau yn eu AoCR fod yr Ymgeisydd wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan a42, a47 ac a48 Deddf Cynllunio 2008 a/ neu nad oedd gan yr awdurdod unrhyw sylwadau/ gwrthwynebiadau i'w gwneud. Yr awdurdodau lleol hyn oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (awdurdod A)</li> <li>• Cyngor Sir Ddinbych (awdurdod B)</li> <li>• Cyngor Cilgwri</li> <li>• Cyngor Fylde</li> </ul> <p>Er y cadarnhaodd Cyngor Cilgwri a Chyngor Flyde gydymffurfedd, dylid nodi nad yw'r awdurdodau hyn yn dod o fewn y diffiniad o awdurdod lleol cynhaliol neu gymdogol, a ddisgrifir fel awdurdodau 'A', 'B', 'C' a 'D' o dan a43 Deddf Cynllunio 2008.</p> <p>Nid oedd yr awdurdod cynhaliol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cyflwyno AoCR.</p> <p>Ar 27 Chwefror 2024, cyflwynodd Cyngor Sefton ei AoCR gan ddatgan na ymgynghorwyd ag ef ynglŷn â Fferm Wynt Alltraeth Mona. I gadarnhau hyn, ar 7 Mawrth 2024, gwnaeth yr Arolygiaeth gais o dan Reoliad 5(5) y Rheoliadau CFfGR am gopiâu o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd o dan Ran 5 Deddf Cynllunio 2008. Darparodd yr Ymgeisydd y wybodaeth hon yn briodol ar 12 Mawrth 2024. Nid oedd yn cynnwys ymateb gan Gyngor Sefton.</p> <p>Felly, o ganlyniad i safbwyntiau croes yr Ymgeisydd a Chyngor Sefton, a heb dystiolaeth bendant, mae'r sefyllfa'n aneglur. Er yr amlygwyd Cyngor Sefton fel ymgynghorai anrhagnodedig o ganlyniad i'r potensial ar gyfer effeithiau gweledol, nid yw'n dod o fewn y diffiniad o awdurdod lleol cynhaliol neu gymdogol, a ddisgrifir fel awdurdodau 'A', 'B', 'C' a 'D' o dan a43 Deddf Cynllunio 2008. Sut bynnag, ac er mwyn sicrhau ei fod yn cael cyfle i ddod yn Barti â Buddiant yn yr Archwiliad i ddod, dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod Cyngor Sefton yn cael ei</p>
--	--	--

		<p>gynnwys yn y rhestr o unigolion i'w hysbysu am y cais a dderbyniwyd o dan a56 y Ddeddf.</p> <p>O ran y Sylwadau Digonolrwydd Ymgynghori gan awdurdodau cynhaliol a chymdogol (awdurdodau a43), ni chodwyd unrhyw bryderon, ac mae'r Arolygiaeth yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r dyletswyddau o dan a42, a47 ac a48.</p> <p>Mae'r holl AoCRau a dderbyniwyd wedi cael eu hystyried yn ofalus ac maen nhw ar gael i'w gweld ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol:  <a href="https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/mona-offshore-wind-farm/?ipcsection=docs">https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/wales/mona-offshore-wind-farm/?ipcsection=docs</a></p>
<b>Adran 42: Dyletswydd i ymgynghori</b>		
A wnaeth yr Ymgeisydd ymgynghori â'r unigolion perthnasol a amlinellir yn adran 42 Deddf Cynllunio 2008 ynglŷn â'r cais arfaethedig?		
6	Adran 42(1)(a) unigolion rhagnodedig <sup>5</sup> ?	<p><b>Do</b></p> <p>Mae'r Ymgeisydd wedi darparu rhestr o unigolion yr ymgynghorwyd â nhw o dan a42(1)(a) ar 19 Ebrill 2023 yn <b>Atodiad D.16</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1)</b>.</p> <p>Darperir enghraifft o'r llythyr a anfonwyd at ymgynghoreion a42(1)(a) yn <b>Atodiad D.13.2</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1)</b>.</p>
7	Adran 42(1)(aa) y Sefydliad Rheoli Morol <sup>6</sup> ?	<p><b>Do</b></p> <p>Mae <b>paragraff 5.2.2.3</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3)</b> yn cadarnhau yr ymgynghorwyd â'r Sefydliad Rheoli Morol o dan a42(1)(aa).</p>

<sup>5</sup> Amlinellir ymgynghoreion statudol yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009 (y Rheoliadau CFfGR)

<sup>6</sup> O ran unrhyw achos lle y byddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un o'r ardaloedd a nodir yn adran 42(2) Deddf Cynllunio 2008, neu y byddai'n debygol o effeithio arnynt

8	Adran 42(1)(b) pob awdurdod lleol o fewn adran 43 <sup>7</sup> ?	<p><b>Do</b></p> <p>Mae <b>Tabl 5.12</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3)</b> yn rhestru'r awdurdodau lleol perthnasol a amlygwyd ac yr ymgynghorwyd â nhw o dan a43 ac a42(1)(b) ar 19 Ebrill 2023.</p> <p>Yr awdurdodau 'B' cynhaliol oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</li> <li>• Cyngor Sir Ddinbych</li> </ul> <p>Yr awdurdodau 'A' ffiniol yr ymgynghorwyd â nhw oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyngor Sir y Fflint</li> <li>• Cyngor Gwynedd</li> <li>• Cyngor Sir Powys</li> <li>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam</li> </ul> <p>Darperir enghraifft o'r llythyr a anfonwyd at awdurdodau perthnasol a42(1)(b) yn <b>Atodiad D.13.2</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1)</b>.</p>
9	Adran 42(1)(c) Awdurdod Llundain Fwyaf (os yw yn ardal Llundain Fwyaf)?	<b>Amherthnasol</b>
10	Adran 42(1)(d) pob unigolyn o fewn un categori a44 neu fwy <sup>8</sup> ?	<p><b>Do</b></p> <p>Mae <b>paragraff 5.2.6.8</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3)</b> yn datgan yr ymgynghorwyd â'r holl unigolion a amlygwyd o dan a42(1)(d) ar 17 Ebrill 2023.</p> <p>Mae <b>paragraffau 5.2.6.1</b> i <b>5.2.6.10</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3)</b> yn crynhoi sut oedd yr Ymgeisydd wedi gwneud ymholiadau diwyd i geisio adnabod</p>

<sup>7</sup> Dyma'r diffiniad o 'awdurdod lleol' yn adran 43(3) Deddf Cynllunio 2008: Yr awdurdod 'B' lle mae tir y cais o fewn ardal yr awdurdod; yr awdurdod 'A' lle mae unrhyw ran o ffin ardal A hefyd yn rhan o ffin ardal B; yr awdurdod 'C' (haen uwch) lle mae tir y cais o fewn ardal yr awdurdod hwnnw; yr awdurdod 'D' lle mae awdurdod o'r fath yn rhannu ffin ag awdurdod 'C'

<sup>8</sup> Categori 1: perchennog, deiliad pryddles, tenant neu feddiannwr tir; Categori 2: unigolyn sydd â buddiant yn y tir neu sydd â'r pŵer i werthu a throsglwyddo'r tir neu ryddhau'r tir; Categori 3: unigolion y byddai ganddynt hawl neu y gallai fod ganddynt hawl i wneud hawliad perthnasol.

		<p>ac ymgynghori ag unigolion â buddiant mewn tiroedd y mae'r <b>DCO Drafft (Dogfen C1)</b> yn effeithio arnynt. Darperir y fethodoleg lawn a ddefnyddiwyd gan yr Ymgeisydd yn <b>Atodiad D.18</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1)</b>.</p> <p>Darperir enghraifft o'r llythyr yn <b>Atodiad D.18.2</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1)</b>.</p>
<b>Adran 45: Amserlen ar gyfer ymgynghoriad adran 42</b>		
11	<p>A oedd yr Ymgeisydd wedi hysbysu ymgynghoreion adran 42 o'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad; ac, os felly, a oedd y dyddiad cau a nodwyd gan yr Ymgeisydd yn rhoi 28 niwrnod neu fwy iddynt ymateb, yn dechrau y diwrnod ar ôl iddynt dderbyn y dogfennau ymgynghori?</p>	<p><b>Oedd</b></p> <p>Darperir enghraifft o'r llythyr a anfonwyd at ymgynghoreion a42 yn <b>Atodiad D.13.1, D.13.2 a D.13.3</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1)</b>.</p> <p>Cadarnhaodd y llythyr enghreifftiol dyddiedig 14 Ebrill 2023 fod yr ymgynghoriad wedi dechrau ar 19 Ebrill 2023 ac wedi dod i ben ar 4 Mehefin 2023, gan ddarparu mwy na'r lleiafswm amser sy'n ofynnol i dderbyn ymatebion.</p>
<b>Adran 46: Dyletswydd i hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio o'r cais arfaethedig</b>		
12	<p>A gyflenwodd yr Ymgeisydd wybodaeth i hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio o'r cais arfaethedig; ac, os felly, a gyflwynwyd y wybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio ar y dyddiad y'i hanfonwyd at yr ymgynghoreion Adran 42 neu cyn hynny? A wnaed hyn wrth ddechrau ymgynghori o dan Adran 42 neu cyn hynny?</p>	<p><b>Do</b></p> <p>Ar 19 Ebrill 2023, sef y dyddiad y dechreuodd yr ymgynghoriad, cyflwynodd yr Ymgeisydd ei hysbysiad a46 i'r Arolygiaeth Gynllunio trwy e-bost. Ni chyrrhaeddodd yr hysbysiad, ac ailgyflwynodd yr Ymgeisydd ei hysbysiad a46 i'r Arolygiaeth Gynllunio ar 26 Ebrill 2023. Mae tystiolaeth wedi cael ei darparu i gadarnhau bod yr Ymgeisydd wedi ceisio cyflwyno ei hysbysiad a46 ar 19 Ebrill 2023, ond na chyrrhaeddodd ar y dyddiad hwnnw o ganlyniad i wall technegol.</p> <p>Darperir copi o'r llythyr hysbysu a46 yn <b>Atodiad D.21.2</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1)</b> a darperir copi o'r llythyr cydnabod hysbysiad a46 gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn <b>Atodiad D.21.1</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1)</b>.</p>
<b>Adran 47: Dyletswydd i ymgynghori â'r gymuned leol</b>		

13	A baratôdd yr Ymgeisydd Ddatganiad Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC) ynglŷn â sut yr oedd yn bwriadu ymgynghori â phobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir?	<p><b>Do</b></p> <p>Darperir copi o'r SoCC terfynol yn <b>Atodiad D.1</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1)</b>.</p>
14	A ymgynghorwyd ag awdurdodau 'B' a (lle y bo'n berthnasol) 'C' ynglŷn â chynnwys y SoCC; os felly, a oedd y terfyn amser ar gyfer derbyn ymatebion yn rhoi 28 niwrnod, yn dechrau y diwrnod ar ôl y diwrnod yr oedd awdurdodau 'B' a (lle y bo'n berthnasol) 'C' wedi derbyn y dogfennau ymgynghori?	<p><b>Do</b></p> <p>Anfonodd yr Ymgeisydd y SoCC drafft at Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych (awdurdodau 'B') a Chyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (awdurdodau 'C'). Mae <b>paragraff 5.1.3.7</b> yr Adroddiad Ymgynghori (<b>Dogfen E3</b>) yn cadarnhau y cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori, yn dilyn newidiadau i'r rhaglen; un o 7 Hydref 2022 tan 4 Tachwedd 2022 ar ddrafft cyntaf y SoCC, a'r ail ar y drafft diwygiedig o'r SoCC o 9 Mawrth 2023 tan 6 Ebrill 2023. Darparodd yr Ymgeisydd y lleiafswm amser sy'n ofynnol i dderbyn ymatebion.</p>
15	A yw'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw ymatebion a dderbyniwyd wrth baratoi'r SoCC?	<p><b>Ydyw</b></p> <p>Mae <b>Tablau 5.1 a 5.2</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3)</b> yn crynhoi'r ymatebion ymgynghori gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Adran Seilwaith Ynys Manaw (IoM)/y Pwyllgor Moroedd Tiriogaethol, Cyngor Sir Ddinbych, a Chyngor Sir Ynys Môn gysylltiedig â'r SoCC drafft ac yn dangos sut oedd yr Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i'w cynnwys.</p> <p>Mae enghreifftiau o newidiadau o'r SoCC drafft i'r SoCC terfynol yn cynnwys:</p> <p><b>Adborth gan Gyngor Sir Ddinbych:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw Neuadd Bentref Bodelwyddan yn unig yn briodol. Mae'r llwybrau a ffeirir ar gyfer y cebl a'r is-orsaf yn fwyaf tebygol o effeithio ar y cymunedau gwledig o amgylch parc busnes Llanelwy.</li> </ul>



		<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Newid</b> – Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori yn Eglwys Blwyf Llanelwy a Neuadd Bentref Neuadd Owen, yn ogystal â'r digwyddiad arfaethedig yn y SoCC drafft yn Neuadd Bentref Bodelwyddan.</li> </ul> <p><b>Adborth gan Adran Seilwaith IoM/y Pwyllgor Moroedd Tiriogaethol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw Ynys Manaw wedi'i chynnwys fel digwyddiad cyhoeddus, digwyddiad naid na lleoliad adneuo deunyddiau ymgynghori.</li> <li>• <b>Newid</b> – Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori wedi hynny yn Ramsey a Douglas. Defnyddiwyd Llyfrgell Henry Bloom yn Douglas a Llyfrgell Dref Ramsey fel lleoliadau i adneuo deunyddiau ymgynghori.</li> </ul> <p><b>Adborth gan Cyfoeth Naturiol Cymru:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ychwanegu Siambr Forgludiant y Deyrnas Unedig, diogelu NATS En-Route Limited (NERL), y Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau Pysgotwyr (NFFO), Cymdeithas Pysgotwyr Cymru (WFA) ac Awdurdod Pysgodfeydd a Chadwraeth Glannau'r Gogledd-orllewin (IFCA) at y rhestr ymgynghori.</li> <li>• <b>Newid</b> – Cynhwyswyd y rhain fel ymgynghoreion o dan a47 ac a42 (NERL/NATS).</li> </ul> <p>Mae'r Arolygiaeth Gynllunio'n fodlon bod yr Ymgeisydd wedi ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd wrth baratoi'r SoCC.</p>
16	<p>A sicrhawyd bod y SoCC ar gael i'w archwilio mewn ffordd sy'n gymharol gyfleus i bobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir; ac a gyhoeddwyd hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yng nghyffiniau'r tir yn datgan ble a phryd y gellir archwilio'r SoCC?</p>	<p><b>Do</b></p> <p>Roedd y SoCC terfynol ar gael yn y lleoliadau canlynol, sy'n rhesymol gyfleus o ystyried lleoliad y Datblygiad Arfaethedig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llyfrgell Amlwch, Lôn Parys, Amlwch, Ynys Môn LL68 9EA</li> <li>• Llyfrgell Gyhoeddus Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor LL57 1DT</li> <li>• Llyfrgell Henry Bloom Noble, Cyngor Bwrdeistref Douglas, Douglas, Ynys Manaw IM1 2AY</li> </ul>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llyfrgell Llandudno, Stryd Mostyn, Llandudno LL30 2RP</li> <li>• Llyfrgell Ramsey, Parliament Square, Ramsey, Ynys Manaw IM8 1RT</li> <li>• Llyfrgell y Rhyl, Amgueddfa a Chanolfan Gelfyddydau, Stryd yr Eglwys, y Rhyl, LL18 3AA</li> </ul> <p>Cyhoeddwyd hysbysiad yn datgan pryd a ble y gellid archwilio'r SoCC terfynol yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Daily Post Wales West ar 19 Ebrill 2023</li> <li>• Golwg ar 20 Ebrill 2023</li> <li>• Isle of Man Courier ar 21 Ebrill 2023</li> </ul> <p>Mae'r hysbysiad SoCC cyhoeddedig, a ddarperir yn <b>Atodiad D.3</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1)</b> yn datgan ble a phryd y gellid archwilio'r SoCC terfynol.</p> <p>Darperir toriadau o'r hysbysebion cyhoeddedig yn <b>Atodiad D.3</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1)</b>.</p>
17	A yw'r SoCC yn nodi p'un a yw'r datblygiad yn ddatblygiad AEA <sup>9</sup> ; ac a yw'n amlinellu sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd i'r Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol ac ymgynghori arni?	<p><b>Ydyw</b></p> <p>Mae <b>Tudalen 10/ Adran 4</b> y SoCC terfynol yn <b>Atodiad D.1</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1)</b> yn nodi bod y datblygiad yn ddatblygiad AEA ac yn amlinellu sut oedd yr Ymgeisydd yn bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd i'r Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol ac ymgynghori arni.</p>
18	A yw'r Ymgeisydd wedi cynnal yr ymgynghoriad yn unol â'r SoCC?	<p><b>Ydyw</b></p> <p>Mae <b>Paragraffau 5.1.7</b> i <b>5.1.24.2</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3)</b> yn amlinellu sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad cymunedol yn unol â'r SoCC terfynol.</p>

<sup>9</sup> Rheoliad 12 Rheoliadau AEA 2017, neu, lle mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol, Rheoliad 10 Rheoliadau AEA 2009

		<p>Mae <b>Tabl 5.11</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3)</b> yn amlinellu sut oedd yr Ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r ymrwymiadau a nodir yn y SoCC terfynol.</p> <p>Mae <b>Atodiadau D.8</b> i <b>D.15</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1)</b> yn darparu tystiolaeth y cyflawnwyd yr ymrwymiadau yn y SoCC terfynol.</p>	
<p><b>Adran 48: Dyletswydd i roi cyhoeddusrwydd i'r cais arfaethdog</b></p>			
19	<p>A roddodd yr Ymgeisydd gyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig yn y modd a ragnodir, a amlinellir yn Rheoliad 4(2) y Rheoliadau CFfGR?</p>	<p><b>Do</b></p> <p>Mae <b>Paragraff 5.5.3.2</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3)</b> yn datgan:</p> <p><i>“Cyhoeddwyd yr hysbysiad adran 48 gyntaf yn The Guardian ar 12 Ebrill 2023. Ymddangosodd yr hysbysiadau sy'n weddill yn y wasg rhwng 12 ac 20 Ebrill, i gyd-fynd â dechrau'r cyfnod ymgynghori adran 42 a 47 ar 19 Ebrill 2023, ac anfonwyd copïau o'r hysbysiad at yr holl gyrff ymgynghori (a restrir yn Atodiad D.16) ar 19 Ebrill 2023.”</i></p> <p>Mae <b>Adran 5.5.3.5</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3)</b> yn arddangos papurau newyddion a dyddiadau cyhoeddusrwydd a48, fel yr amlinellir isod.</p> <p>Darperir copi o'r hysbysiad a48 yn <b>Atodiad D.22</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1 Rhan 2)</b>.</p> <p>Darperir toriadau o'r hysbysebion cyhoeddedig yn a amlinellir isod yn <b>Atodiad D.22.2</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1 Rhan 2)</b>:</p>	
		<b>Papur(au) Newyddion</b>	<b>Dyddiad</b>
a)	<p>am ddwy wythnos yn olynol o leiaf mewn un papur newydd lleol neu fwy sy'n cylchredeg yn y cyffiniau y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael ei leoli ynddynt;</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• The Daily Post</li>   <li>• Golwg</li> </ul>	<p><b>Wythnos 1:</b> 12 Ebrill 2023 –</p> <p><b>Wythnos 2:</b> 19 Ebrill 2023</p> <p><b>Wythnos 1:</b> 13 Ebrill 2023 –</p>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>Isle of Man Courier</li> </ul>	<p><b>Wythnos 2:</b> 20 Ebrill 2023</p> <p><b>Wythnos 1:</b> 14 Ebrill 2023 –</p> <p><b>Wythnos 2:</b> 20 Ebrill 2023</p>		
b)	unwaith mewn papur newydd cenedlaethol;	<ul style="list-style-type: none"> <li>The Guardian</li> </ul>	12 Ebrill 2023		
c)	unwaith yn Gazette Llundain ac, os yw'r datblygiad yn effeithio ar dir yn yr Alban, Gazette Caeredin; a	<ul style="list-style-type: none"> <li>London Gazette</li> </ul>	12 Ebrill 2023		
ch)	<p>Ile mae'r cais arfaethedig yn ymwneud â datblygiad ar y môr –</p> <p>(i) unwaith yn Rhestr Lloyds; ac</p> <p>(ii) unwaith mewn cyfnodolyn masnach pysgota priodol?</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lloyds List</li> <li>Fishing News</li> </ul>	<p>12 Ebrill 2023</p> <p>12 Ebrill 2023</p>		
20	A oedd yr hysbysiad Adran 48 yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol, a amlinellir yn Rheoliad 4(3) y Rheoliadau CFfGR?	<p><b>Oedd</b></p> <p>Mae'r hysbysiad a48 cyhoeddedig, a gyflenwir yn <b>Atodiad D.22</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1 Rhan 2)</b>, yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol fel yr amlinellir isod:</p>			
<b>Gwybodaeth</b>		<b>Paragraff</b>	<b>Gwybodaeth</b>		<b>Paragraff</b>
a)	enw a chyfeiriad yr Ymgeisydd.	7	b)	datganiad bod yr Ymgeisydd yn bwriadu gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am ganiatâd datblygu	7
c)	datganiad ynghylch p'un a yw'r cais yn ddatblygiad AEA	11	ch)	crynodeb o'r prif gynigion, gan nodi lleoliad neu lwybr y Datblygiad Arfaethedig	10-11

d)	datganiad bod y dogfennau, y cynlluniau a'r mapiau sy'n dangos natur a lleoliad y Datblygiad Arfaethedig ar gael i'w harchwilio yn rhad ac am ddim yn y mannau (gan gynnwys o leiaf un cyfeiriad yng nghyffiniau'r Datblygiad Arfaethedig) ac ar yr amserau a nodwyd yn yr hysbysiad	16	dd)	y dyddiad olaf y bydd y dogfennau, y cynlluniau a'r mapiau hynny ar gael i'w harchwilio	18
e)	p'un a godir tâl am gopïau o unrhyw un o'r dogfennau, y cynlluniau neu'r mapiau, a swm unrhyw dâl	17	f)	manylion sut i ymateb i'r cyhoeddusrwydd	23
ff)	terfyn amser ar gyfer derbyn yr ymatebion hynny gan yr Ymgeisydd, nad yw'n llai na 28 niwrnod ar ôl dyddiad olaf cyhoeddi'r hysbysiad	25			
21	A oes unrhyw sylwadau ynglŷn â'r hysbysiad Adran 48 a ddarparwyd uchod?				
	<b>Nac oes</b>				
22	A anfonwyd copi o'r hysbysiad Adran 48 at y cyrff ymgynghori AEA ac unrhyw unigolyn yr hysbyswyd yr Ymgeisydd amdano yn unol â'r Rheoliadau AEA <sup>10</sup> ?	<p><b>Do</b></p> <p>Anfonwyd copi o'r hysbysiad a48 at y cyrff ymgynghori AEA yn rhan o'r ymgynghoriad a42, fel y cadarnheir ym <b>mharagraff 5.5.3.2-5.5.3.3</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3)</b>.</p> <p>Mae'r enghraifft o'r llythyr ymgynghoriad a42 a ddarperir yn <b>Atodiad D.13.2</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1 Rhan 2)</b> yn cadarnhau bod copi o'r hysbysiad a48 wedi'i amgáu.</p>			

<sup>10</sup> Rheoliad 13 Rheoliadau AEA 2017, neu, lle mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol, Rheoliad 11 Rheoliadau AEA 2009

Adran 49: Dyletswydd i ystyried ymatebion i ymgynghoriad a chyhoedduswydd		
23	A yw'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i unrhyw ymatebion perthnasol i'r ymgynghoriad Adran 42, Adran 47 ac Adran 48?	<p><b>Ydyw</b></p> <p>Mae <b>Adran 5.7.1.4</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3)</b> ac <b>Atodiad D.25 (Dogfen E3.1 Rhan 2)</b> yn amlinellu sut oedd yr Ymgeisydd wedi ystyried yr ymatebion ymgynghori a dderbyniwyd; gan gynnwys p'un a oedd ymatebion wedi arwain at newidiadau i'r cais ai peidio.</p> <p>Mae'n ymddangos bod y camau gweithredu a lywiwyd gan yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u hadlewyrchu yn ffurf derfynol y cais, fel y'i cyflwynwyd. Lle nad yw ymateb penodol wedi arwain at newid i'r cais, mae'n ddigon amlwg y rhoddwyd ystyriaeth iddo.</p>
Arweiniad ynglŷn â'r weithdrefn cyn-ymgeisio		
24	I ba raddau mae'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i'r arweiniad statudol 'Deddf Cynllunio 2008: Arweiniad ar y broses cyn-ymgeisio' <sup>11</sup> ?	<p>Mae <b>Paragraff 8 1.1.3</b> yr <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3)</b> yn datgan bod yr Ymgeisydd wedi ystyried yr holl ganllawiau statudol perthnasol a chanllawiau eraill perthnasol.</p> <p>Ar ôl adolygu'r cais, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi amlygu ac ystyried y canllawiau statudol perthnasol.</p> <p>Er mwyn cynorthwyo'r Arolygiaeth i ddod i'r casgliad hwn, gofynnwyd am yr holl ymatebion i ymgynghoriad yr Ymgeisydd o dan Ran 5 Deddf Cynllunio 2008 o dan Reoliad 5(5) y Rheoliadau CFfGR. Gofynnodd yr Arolygiaeth am yr ymatebion hyn ar 7 Mawrth 2024 a chawsant eu darparu gan yr Ymgeisydd ar 12 Mawrth 2024.</p>
25	<b>Crynodeb: Adran 55(3)(e)</b>	Mae'r Ymgeisydd wedi cydymffurfio â Phennod 2 Rhan 5 (gweithdrefn cyn-ymgeisio) Deddf Cynllunio 2008.

<sup>11</sup> Mae'n rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio ystyried i ba raddau y mae'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i'r arweiniad a gyhoeddwyd o dan adran 50

**Adran 55(3)(f) ac Adran 55(5A): Bod y cais (gan gynnwys atodiadau) o safon foddhaol o ystyried i ba raddau y mae'n cydymffurfio ag Adran 37(3) (ffurf a chynnwys cais) ac unrhyw safonau a osodwyd o dan Adran 37(5) ac yn dilyn unrhyw arweiniad perthnasol o dan Adran 37(4)**

26	<p>A yw wedi'i lunio gan ddilyn y ffurf ragnodedig a amlinellir yn Atodiad 2 y Rheoliadau CFfGR, ac a yw'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• datganiad byr sy'n esbonio pam mae'n dod o fewn cylch gorchwyl yr Arolygiaeth Gynllunio; a</li> <li>• datganiad byr sy'n nodi'n glir lleoliad safle'r cais, neu'r llwybr os yw'n gynllun llinol?</li> </ul>	<p><b>Ydyw</b></p> <p>Mae <b>Adran 4 y Ffurflen Gais (Dogfen A3)</b> yn esbonio pam mae'r datblygiad yn dod o fewn cylch gorchwyl yr Arolygiaeth Gynllunio.</p> <p>Mae <b>Adran 5 y Ffurflen Gais (Dogfen A3)</b> yn rhoi disgrifiad annhechnegol byr o'r safle ac mae <b>adran 6</b> yn rhoi lleoliad y Datblygiad Arfaethedig.</p> <p>Mae <b>Cynllun Lleoliad (Dogfen B1)</b> wedi cael ei ddarparu.</p>	
27	A gyflwynwyd Adroddiad Ymgynghori gydag ef?	<p><b>Do</b></p> <p>Mae <b>Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3)</b> ac <b>Atodiadau i'r Adroddiad Ymgynghori (Dogfen E3.1)</b> yn cyd-fynd â'r cais.</p>	
28	Lle mae cynllun yn cynnwys tair dalen ar wahân neu fwy, a ddarparwyd cynllun allwedd sy'n dangos y berthynas rhwng y gwahanol ddalenni? <sup>12</sup>	<p><b>Do</b></p>	
29	A gyflwynwyd y dogfennau a'r wybodaeth a amlinellir yn Rheoliad CFfGR 5(2) gydag ef?	<p><b>Do</b></p>	
<b>Gwybodaeth</b>		<b>Gwybodaeth</b>	
<b>Dogfen</b>		<b>Dogfen</b>	

<sup>12</sup> Rheoliad 5(4) Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009

a)	Lle y bo'n berthnasol, y Datganiad Amgylcheddol sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau AEA <sup>13</sup> ac unrhyw farn neu gyfarwyddyd cwmpasu neu sgrinio	<b>Datganiad Amgylcheddol (ES):</b> <b>Cyfrol 1 Crynodeb annhechnegol (Dogfen F1)</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cyfrol 2 – Penodau Alltraeth (Dogfennau F2.1 – F2.11)</b></li> <li>• <b>Cyfrol 3 – Penodau Ar y Tir (Dogfennau F3.1 – F3.11)</b></li> <li>• <b>Cyfrol 4 – Penodau Cyfunol (Dogfennau F4.1 – F4.4)</b></li> <li>• <b>Cyfrol 5 – Atodiadau Cyflwyniadol (Dogfennau F5.3.1 – F5.3.2)</b></li> <li>• <b>Cyfrol 6 – Atodiadau Alltraeth (Dogfennau F6.1.1 - F6.10.1)</b></li> <li>• <b>Cyfrol 7 – Atodiadau Ar y Tir (Dogfennau F7.1.1 - F7.9.3)</b></li> <li>• <b>Cyfrol 8 – Atodiadau Cyfunol (Dogfennau F8.1.1 – F8.3.1)</b></li> </ul> <b>Barn Gwmpasu (Dogfen J8)</b>	b)	Y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) drafft	<b>Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft (Dogfen C1)</b>
	A yw hwn o safon foddhaol?	Ydyw (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30).		A yw hwn o safon foddhaol?	Ydyw (gydag arsylwadau yn y llythyr cyngor a51).

<sup>13</sup> Rheoliadau AEA 2017, neu, lle mae Rheoliad 37 Rheoliadau AEA 2017 yn berthnasol, Rheoliadau AEA 2009



c)	Memorandwm Esboniadol sy'n esbonio diben ac effaith darpariaethau yn y DCO drafft	<b>Memorandwm Esboniadol (Dogfen C3)</b>	ch)	Lle y bo'n berthnasol, Llyfr Cyfeirio	<b>Llyfr Cyfeirio (Dogfen D4)</b>
	A yw hwn o safon foddhaol?	Ydyw (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30).		A yw hwn o safon foddhaol?	Ydyw (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30).
d)	Copi o unrhyw Aseiad Perygl Llifogydd	<b>ES Cyfrol 7, Atodiad 2.1: Aseiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) (Dogfen F7.2.1)</b>	dd)	Datganiad ynghylch p'un a yw'r cynnig yn ymgysylltu ag un neu fwy o'r materion a amlinellir yn adran 79(1) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (niwsans statudol) ac, os felly, sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu eu lliniaru neu gyfyngu arnynt	<b>Datganiad Niwsans Statudol (Dogfen J5)</b>  Mae hyn yn mynd i'r afael â materion perthnasol fel yr amlinellir yn a79(1) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (niwsansau statudol), gan gynnwys sŵn a dirgryniad (Adran 1.5.2), allyriadau llwch (Adran 1.5.3) ac allyriadau golau artiffisial (Adran 1.5.4).
	A yw hwn o safon foddhaol?	Ydyw (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30).		A yw hwn o safon foddhaol?	Ydyw.
e)	Datganiad o Resymau a Datganiad Ariannu (Ile mae'r cais yn ymwneud ag unrhyw Gaffael Gorfodol)	<b>Datganiad o'r Rhesymau (Dogfen D3)</b> <b>Datganiad Ariannu (Dogfen D1)</b> <b>Atodiadau Datganiad Ariannu rhan 1-3 (Dogfen D2)</b>	f)	Cynllun Tir sy'n amlygu'r canlynol:-  (i) y tir sy'n ofynnol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig, neu y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn effeithio arno;	<b>Cynllun Tir (Ar y Tir) (Dogfen B5)</b>

			(ii) lle y bo'n berthnasol, unrhyw dir y bwriedir arfer pwerau Caffael Gorfodol drosto neu unrhyw hawliau i ddefnyddio'r tir;	
			(iii) unrhyw dir y bwriedir dileu hawddfreintiau, ymrwymadau caeth a hawliau preifat eraill mewn perthynas ag ef; ac	
			(iv) unrhyw dir categori arbennig a thir cyfnewid	
	A yw hwn o safon foddhaol?	Ydyw.	A yw hwn o safon foddhaol?	Ydyw (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30).
ff)	Cynllun Gwaith sy'n dangos, mewn perthynas â nodweddion presennol:-  (i) lleoliad arfaethedig neu (o ran cynllun llinol) lwybr ac aliniad arfaethedig y datblygiad a'r gwaith; a'r	<b>Cynlluniau Gwaith – Ar y Tir (Dogfen B3)</b>  <b>Cynllun Gwaith – Alltraeth a Rhynglanw (Dogfen B4)</b>	g) Lle y bo'n berthnasol, cynllun sy'n amlygu unrhyw ffordd fynediad newydd neu wedi'i newid, cau strydoedd neu ffyrdd neu unrhyw achosion o ddargyfeirio, diddymu neu greu hawliau tramwy neu hawliau mordwyo cyhoeddus	<b>Cynllun Mynediad at Waith a Mynediad Gwaith Stryd – Ar y Tir (Dogfen B15)</b>  <b>Cynllun Cau Hawliau Tramwy Cyhoeddus Dros Dro (Dogfen B16)</b>

	(ii) terfynau ar gyfer cynnal y datblygiad a'r gwaith ac unrhyw derfynau gwyro a ddarperir yn y DCO drafft				
	A yw hwn o safon foddhaol?	Ydyw (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30).		A yw hwn o safon foddhaol?	Ydyw (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30).
ng )	<p>Lle y bo'n berthnasol, cynllun gyda gwybodaeth gysylltiedig sy'n amlygu:-</p> <p>(i) unrhyw safleoedd neu nodweddion cadwraeth natur statudol/anstatudol e.e. safleoedd o bwysigrwydd daearegol/tirwedd;</p> <p>(ii) cynefinoedd rhywogaethau a warchodir, cynefinoedd pwysig neu nodweddion bioamrywiaeth eraill; ac</p> <p>(iii) ardaloedd dŵr mewn cynllun rheoli basn afon,</p>	<p>(i) Amlygir safleoedd neu nodweddion cadwraeth natur statudol/anstatudol ar y cynlluniau canlynol: <b>Safleoedd Cadwraeth Natur Statudol ac Anstatudol Alltraeth (Dogfen B10); Safleoedd Cadwraeth Natur Statudol ac Anstatudol Ar y Tir (Dogfen B11); ES Pennod 6 Atodiad A Ffigurau 6.2 a 6.3 (Dogfen F3.6); ac ES Pennod 8 Atodiad 8.5 Ffigurau A.1 i A.3 (Dogfen F6.8.5).</b></p> <p>(ii) Amlygir cynefinoedd rhywogaethau a warchodir, cynefinoedd pwysig a nodweddion eraill ar y cynlluniau canlynol: <b>ES</b></p>	h)	<p>Lle y bo'n berthnasol, cynllun gyda gwybodaeth gysylltiedig sy'n amlygu unrhyw safleoedd neu nodweddion amgylchedd hanesyddol statudol/anstatudol (e.e. henebion cofrestredig, safleoedd Treftadaeth y Byd, adeiladau rhestredig, safleoedd archaeolegol a meysydd brwydr cofrestredig) ynghyd ag asesiad o unrhyw effeithiau y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o'u cael ar safleoedd, nodweddion neu adeileddau o'r fath</p>	<p>Amlygir safleoedd neu nodweddion amgylchedd hanesyddol statudol/anstatudol ar y <b>Cynllun Amgylchedd Hanesyddol Alltraeth (Dogfen B12)</b> a'r <b>Cynllun Safleoedd Hanesyddol a Henebion Cofrestredig Ar y Tir (Dogfen B13)</b>.</p> <p>Darperir asesiad o effeithiau yn yr <b>ES Pennod 9: Archaeoleg Forol (Dogfen F2.9)</b> a'r <b>ES Pennod 5: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Dogfen F3.5)</b>.</p>

<p>ynghyd ag asesiad o unrhyw effeithiau y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn debygol o'u cael ar safleoedd, nodweddion, cynefinoedd neu ardaloedd o'r fath</p>	<p><b>Pennod 2 Ffigur 2.8 (Dogfen F2.2); ES Pennod 4 Ffigur 4.4 (Dogfen F2.4); Safleoedd Cadwraeth Natur Statudol ac Anstatudol Alltraeth (Dogfen B10); Safleoedd Cadwraeth Natur Statudol ac Anstatudol Ar y Tir (Dogfen B11); a'r Cynllun Coed a Gwrychoedd (Dogfen B14).</b></p> <p>Darperir asesiad o effeithiau ar (i) a (ii) ym mhenodau canlynol yr ES:</p> <p>Cyfrol 1</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 1: Prosesau Ffisegol (<b>Dogfen F2.1</b>)</li> <li>• 2: Ecoleg Fenthig Islanw a Rhynglanw (<b>Dogfen F2.2</b>)</li> <li>• 3: Ecoleg Pysgod a Physgod Cregyn (<b>Dogfen F2.3</b>)</li> <li>• 4: Mamaliaid Môr (<b>Dogfen F2.4</b>)</li> <li>• 5: Adareg Alltraeth (<b>Dogfen F2.5</b>)</li> <li>• 8: Morlun ac adnoddau gweledol (<b>Dogfen F2.8</b>)</li> </ul>			
--	---	--	--	--

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 11: Effeithiau Rhyng-gysylltiedig – Alltraeth (<b>Dogfen F2.11</b>)</li> </ul> <p>Cyrol 2</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 3: Ecoleg Ar y Tir (<b>Dogfen F3.3</b>)</li> <li>• 4: Adareg Ar y Tir a Rhynglanw (<b>Dogfen F3.4</b>)</li> <li>• 6: Tirwedd ac Adnoddau Gweledol (<b>Dogfen F3.6</b>)</li> <li>• 11: Effeithiau Rhyng-gysylltiedig – Ar y Tir (<b>Dogfen F3.11</b>)</li> </ul> <p>(iii) Amlygir lleoliad cyrff dŵr mewn cynllun rheoli basn afon ar y <b>Cynllun Rheoli Cyrff Dŵr mewn Basn Afon (Dogfen B17)</b>.</p> <p>Darperir asesiad o effeithiau yn yr <b>ES Pennod 2: Hydroleg a Pherygl Llifogydd (Dogfen F3.2); ES Atodiad 2.2: Asesiad Dyfroedd Arfordirol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Dogfen F6.2.2); a'r ES Atodiad 2.4: Asesiad Dŵr Wyneb a Dŵr Daear y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (Dogfen F7.2.4)</b>.</p>			
--	--	--	--	--

	A yw hwn o safon foddhaol?	Ydyw.		A yw hwn o safon foddhaol?	Ydyw.
i)	Lle y bo'n berthnasol, cynllun gydag unrhyw wybodaeth gysylltiedig sy'n amlygu unrhyw dir y Goron	<b>Cynllun Tir y Goron (Ar y Tir) (Dogfen B6)</b>	i)	Unrhyw gynlluniau, lluniadau a thrychiadau eraill sy'n angenrheidiol i ddisgrifio'r cynnig ar gyfer caniatâd datblygu sy'n dangos manylion dylunio, golwg allanol, a gosodiad delfrydol adeiladau/adeileddau, draenio, rheoli dŵr wyneb, dull mynediad i gerbydau a cherddwyr, ac unrhyw le parcio a thirweddu	<b>Cynllun Cyswllt a Chydfodoli â Physgodfeydd Amlinellol (Dogfen J13)</b> <b>Adroddiad Nodweddu Safle Ardal Araé Mona (Dogfen J19)</b> <b>Adroddiad Nodweddu Safle Coridor Cebi Alltraeth Mona (Dogfen J20)</b> <b>Cynllun Rheoli Llifogydd Amlinellol (Dogfen J26.7)</b> <b>Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu Amlinellol (Dogfen J26.13)</b> <b>Cynlluniau Rheoli Mynediad Priffyrdd Amlinellol (Dogfen J26.16)</b> <b>Strategaeth Rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus Amlinellol (Dogfen J27)</b>
	A yw hwn o safon foddhaol?	Ydyw (gyda mân anghysondebau fel y nodir ym Mlwch 30).		A ydynt o safon foddhaol?	Ydynt.
ii)	Unrhyw un o'r dogfennau a ragnodir gan Rheoliad 6 y Rheoliadau CFfGR:	<b>Rheoliad 6(1)(b)(i) – Datganiad Manylion Cysylltiad â'r Grid a Chebl (Dogfen J4)</b> <b>Rheoliad 6(1)(b)(ii) – Datganiad Parth Diogelwch (Dogfen J6)</b>	m)	Unrhyw ddogfennau eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ategu'r cais	<b>Cydsyniadau neu Drwyddedau Eraill sy'n Ofynnol ar gyfer Mona (Dogfen J1)</b> <b>Datganiad Cynllunio Mona (Dogfen J2)</b> <b>Olrheiniwr Datganiadau Polisi Cenedlaethol Mona (Dogfen J2.1)</b>

				<p><b>Dogfen Gyfeirio Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru Mona (Dogfen J2.2)</b></p> <p><b>Egwyddorion Dylunio Mona (Dogfen J3)</b></p> <p><b>Datganiad Manylion Cysylltiad â'r Grid a Chebl Mona (Dogfen J4)</b></p> <p><b>Datganiad Niwsans Statudol Mona (Dogfen J5)</b></p> <p><b>Datganiad Parth Diogelwch Mona (Dogfen J6)</b></p> <p><b>Datganiad Budd Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd Mona (Dogfen J7)</b></p> <p><b>Barn Gwmpasu Mona (Dogfen J8)</b></p> <p><b>Dogfen Egwyddorion Trwydded Forol Mona (Dogfen J9)</b></p> <p><b>Atodlen Lliniaru a Monitro Mona (Dogfen J10)</b></p> <p><b>Perthynas Cynlluniau Alltraeth sydd wedi'u cynnwys yn DCO Mona (Dogfen J11)</b></p> <p><b>Cynllun Gweithrediadau a Chynnal a Chadw Alltraeth Amlinellol Mona (Dogfen J12)</b></p> <p><b>Cynllun Rheoli Traffig Llongau Amlinellol Mona (Dogfen J14)</b></p> <p><b>Cynllun Monitro Alltraeth mewn Egwyddor Mona (Dogfen J15)</b></p>
--	--	--	--	--

					<p><b>Strategaeth Rheoli Sŵn Tanddwr Amlinellol Mona (Dogfen J16)</b></p> <p><b>Mesurau Mona i darfu cyn lleied â phosibl ar famaliaid môr ac adar sy'n arnofio gan longau (Dogfen J17)</b></p> <p><b>Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig a Phrotocol ar gyfer Darganfyddiadau Archaeolegol Alltraeth Amlinellol Mona (Dogfen J18)</b></p> <p><b>Protocol Lliniaru Mamaliaid Môr Amlinellol Mona (Dogfen J21)</b></p> <p><b>Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg Amlinellol Mona (Dogfen J22)</b></p> <p><b>Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig Ar y Tir Amlinellol Mona (Dogfen J23)</b></p> <p><b>Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Amlinellol Mona (Dogfen J24)</b></p> <p><b>Perthynas Cynlluniau Ar y Tir sydd wedi'u cynnwys yn DCO Mona (Dogfen J25)</b></p> <p><b>Cod Ymarfer Adeiladu Amlinellol Mona (Dogfen J26)</b></p> <p><b>Cynllun Gollyngiadau ac Ymateb mewn Argyfwng Amlinellol Mona (Dogfen J26.1)</b></p> <p><b>Cynllun Rheoli Llwch Amlinellol Mona (Dogfen J26.2)</b></p>
--	--	--	--	--	---



				<p><b>Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad Adeiladu Amlinellol Mona (Dogfen J26.3)</b></p> <p><b>Cynllun Cyfathrebu Amlinellol Mona (Dogfen J26.4)</b></p> <p><b>Cynllun Ffensys Adeiladu Amlinellol Mona (Dogfen J26.5)</b></p> <p><b>Cynllun Rheoli Dŵr Wyneb a Draenio Adeiladu Amlinellol Mona (Dogfen J26.6)</b></p> <p><b>Cynllun Rheoli Pridd Amlinellol Mona (Dogfen J26.8)</b></p> <p><b>Cynllun Rheoli Gwastraff Safle Amlinellol Mona (Dogfen J26.9)</b></p> <p><b>Cynllun Allyriadau Golau Artiffisial Amlinellol Mona (Dogfen J26.10)</b></p> <p><b>Protocol Bioddiogelwch Amlinellol Mona (Dogfen J26.11)</b></p> <p><b>Strategaeth Ddarganfod Mona ar gyfer Tir Halogedig (Dogfen J26.12)</b></p> <p><b>Datganiad Dull Adeiladu Man Glanio Amlinellol Mona (Dogfen J26.14)</b></p> <p><b>Datganiad Dull Adeiladu Ar y Tir Mona (Dogfen J26.15)</b></p> <p><b>Datganiad Dull Coedyddiaeth Amlinellol (Dogfen J26.18)</b></p>
--	--	--	--	---

	A ydynt o safon foddhaol?	Ydynt.		A ydynt o safon foddhaol?	Ydynt.
30	<p>A oes unrhyw arsylwadau ynglŷn â'r dogfennau a ddarparwyd uchod?</p> <p><b>29(a) – ES Cyfrol 1 Pennod 4 (Dogfen F1.4)</b>  Ailadroddir Adran 4.2.2 (ac fe'i dangosir ar y dudalen Gynnwys hefyd) fel Adran 4.2.4.</p> <p><b>29(c) – Memorandwm Esboniadol (Dogfen C3)</b>  Nid yw is-bennawd Atodlen 10 yn yr un fformat ag is-benawdau eraill yn yr adran honno (paragraff 1.5.1.39). Fe allai hyn esbonio pam nad yw Atodlen 10 wedi'i chynnwys yn yr adran gynnwys.</p> <p><b>29(ch) – Llyfr Cyfeirio (Dogfen D4)</b>  Mae rhifau tudalennau ar goll o 464 i 469 ac nid oes toriad tudalen rhwng Rhan 2 a Rhan 3.</p> <p><b>29(d) – ES Cyfrol 7, Atodiad 2.1: Asesiad Canlyniadau Llifogydd (FCA) (Dogfen F7.2.1)</b>  Mae'r ES Cyfrol 1, Pennod 3, paragraff 3.13.3.3 (Dogfen F1.3) yn datgan mai oes weithredol ddisgwyliedig yr is-orsaf ar y tir yw 50 mlynedd, tra bod paragraff 3.1.4.1 yr FCA yn datgan mai oes weithredol ddisgwyliedig yr is-orsaf ar y tir yw 35 mlynedd.</p> <p><b>29(ff) – Cynllun Tir (Ar y Tir) (Dogfen B5)</b>  Mae saeth sy'n wynebu tua'r gogledd ar goll.  Mae'n ymddangos bod Mewnosodiad 5 (tudalen 10) yn defnyddio'r arlliw anghywir o wyrdd. Er mwyn eglurder, dylid cywiro hyn i ddefnyddio'r un fath o wyrdd ag yn yr allwedd.</p>				

### **29(g) – Cynllun Gwaith Stryd a Mynediad at Waith (Dogfen B15)**

Mae saeth sy'n wynebu tua'r gogledd ar goll.

Gallai'r pwyntiau ar y cynllun (y cyfeirir atynt yn Atodlen 3 a 4 y DCO) fod ychydig yn fwy er mwyn gallu deall yn haws.

Gallai'r pwyntiau ar y cynllun (y cyfeirir atynt yn Atodlen 5 y DCO) fod ychydig yn fwy er mwyn gallu deall yn haws.

### **29(g) – Cynllun Cau Hawliau Tramwy Cyhoeddus Dros Dro (Dogfen B16)**

Mae saeth sy'n wynebu tua'r gogledd ar goll.

### **29(ff) – Cynlluniau Gwaith**

Ar y Tir (**Dogfen B3**): Mae saeth sy'n wynebu tua'r gogledd ar goll.

Ar y Tir (**Dogfen B3**): Dylid cynnwys ffiniau gweinyddol.

Ar y Tir (**Dogfen B3**): Cyfeirir at Waith '22a' fel '22A' yn y dDCO.

Ar y Tir (**Dogfen B3**): Cyfeirir at Waith '12a' fel '12A' yn y dDCO.

Alltraeth a Rhynglanw (**Dogfen B4**): Mae'r raddfa'n llai nag 1:2500, sef y lleiafswm a bennwyd.

### **29(i) – Cynllun Tir y Goron (Ar y Tir) (Dogfen B6)**

Mae saeth sy'n wynebu tua'r gogledd ar goll.

### **Canllaw i'r Cais (Dogfen A5)**

Mae'r canllaw i'r cais (tudalen 3) yn rhestru'r ES Cyfrol 2 yn anghywir fel yr ES Cyfrol 1.

### **Datganiad Amgylcheddol (Dogfen F6)**

Mae anghysondebau cyfeirnoddi ar dudalen 1 y dogfennau canlynol: F6.5.2, F6.5.3, F6.5.5, F6.5.6, F6.8.1.

	<p>Er enghraifft, cyfeirir at F6.5.2 fel 'F.6.5.2'. Awgrymir cynnal gwiriad llawn o gysondeb cyfeiriadau dogfennau.</p> <p>Rhodddwyd cyngor a51 i'r Ymgeisydd ynglŷn â'r materion uchod:  <a href="https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010137-000511">https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010137-000511</a></p>	
31	<p>A yw'r cais yn cynnwys adroddiad sy'n amlygu unrhyw safle(oedd) Ewropeaidd y mae Rheoliad 48 Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994 yn berthnasol iddo/iddynt; neu unrhyw safle(oedd) Ramsar y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio arno/arnynt, ynghyd â digon o wybodaeth a fydd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud asesiad priodol o'r goblygiadau i'r safle os yw'n ofynnol gan Reoliad 48(1)?<sup>14</sup></p>	<p><b>Ydyw</b></p> <p>Mae Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) wedi cael ei ddarparu (<b>Dogfennau E1.1 i E1.5</b>).</p> <p>Mae'r Adroddiad HRA yn amlygu safleoedd Ewropeaidd perthnasol a'r effeithiau tebygol ar y safleoedd hynny. Ystyrir bod y wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad yn ddigonol ar gyfer derbyn.</p> <p>Sylwer: Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gallu gofyn cwestiynau yn ystod yr Archwiliad. Gallai hyn olygu bod angen darparu gwybodaeth ychwanegol i lywio'r Adroddiad HRA a'r awdurdod cymwys. Yn dibynnu ar y math o wybodaeth sy'n ofynnol a'i hargaeledd, efallai na fydd modd ei chael yn ystod amserlen statudol yr Archwiliad.</p>
32	<p>Os yw'r Arolygiaeth Gynllunio yn gofyn amdanynt, dau gopi papur o'r ffurflen gais a dogfennau a chynlluniau ategol eraill<sup>15</sup></p>	<p><b>Ni ofynnwyd am gopiau caled.</b></p>
33	<p>A yw'r Ymgeisydd wedi rhoi ystyriaeth i'r arweiniad statudol 'Deddf Cynllunio 2008: Arweiniad ar y ffurflen gais', ac a yw'r ystyriaeth hon wedi golygu bod y cais wedi cael ei baratoi i</p>	<p><b>Ydyw</b></p> <p>Mae <b>Adran 3.1 y Llythyr Cais (Dogfen A1)</b> yn esbonio sut mae'r Ymgeisydd wedi ystyried arweiniad statudol ar ffurf y cais.</p>

<sup>14</sup> Rheoliad 5(2)(g) y Rheoliadau CFfGR

<sup>15</sup> Rheoliad 5(2)(r) y Rheoliadau CFfGR

	safon sy'n foddhaol ym marn yr Arolygiaeth Gynllunio?	Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn fodlon bod yr Ymgeisydd wedi ystyried yr egwyddorion arweiniol.
34	<b>Crynodeb – Adran 55(3)(f) ac Adran 55(5A)</b>	<p>Ar ôl ystyried yr holl faterion uchod, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn dod i'r casgliad bod y cais (gan gynnwys y dogfennau cysylltiedig) wedi cael ei baratoi hyd at safon y mae'n ystyried ei bod yn foddhaol.</p> <p>O ran yr anghysondebau a amlygwyd ym Mluch 30 y rhestr wirio hon, mae cyngor a51 wedi cael ei roi i'r Ymgeisydd, ar y cyd â'r penderfyniad i dderbyn y cais, i helpu i hwyluso archwiliad effeithlon ac effeithiol o'r cais. Mae'r cyngor hwnnw wedi'i gyhoeddi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol, yma: <a href="https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010137-000511">https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010137-000511</a></p>
<b>Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ffioedd) 2010 (fel y'u diwygiwyd)</b>		
<b>Ffioedd i gyd-fynd â chais</b>		
35	A dalwyd y ffi yr un pryd ag y cyflwynwyd y cais <sup>16</sup> ?	Derbyniwyd y ffi ar 2 Chwefror 2024, cyn i'r cais gael ei wneud.

<b>Rôl</b>	<b>Llofnod electronig</b>	<b>Dyddiad</b>
Rheolwr Achos	Jake Stephens	21 Mawrth 2024
Arolygydd Derbyn	Jessica Powis (Arweinydd) a Graham Hobbins	21 Mawrth 2024

<sup>16</sup> Mae'n rhaid i'r Arolygiaeth Gynllunio godi ffi ar yr Ymgeisydd mewn perthynas â'r penderfyniad gan yr Arolygiaeth Gynllunio o dan Adran 55 De ddf Cynllunio 2008. Os na fydd yr Ymgeisydd yn talu'r ffi, ni fydd angen i'r Arolygiaeth Gynllunio ystyried y cais hyd nes y bydd yn derbyn y taliad. Mae'n rhaid talu'r ffi yr un pryd ag y cyflwynir y cais

